## P-04- P-04-579 Adfer cyllid ar gyfer monitro Gwylogod Ynys Sgomer

**Manylion**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi torri'r cyllid blynyddol o £12,000 y mae'n ei ddarparu ar gyfer y gwaith sy'n mynd rhagddo o fonitro Gwylogod Ynys Sgomer. Mae'r astudiaeth hon yn un hynod o bwysig sy'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i fywyd adar môr a'r hyn sy'n effeithio ar eu poblogaethau. Nid yn unig yw dod â set ddata sydd wedi cael ei chasglu cyhyd (ac sydd, felly, yn werthfawr) i ben yn drueni, ond ni allai'r toriad fod wedi dod ar adeg waeth, o ystyried effaith enfawr y stormydd diweddar ar boblogaethau adar môr (gyda 25,000 o farwolaethau ar hyn o bryd, a disgwylir i'r rhif hwnnw gynyddu). Mae hwn yn benderfyniad gwael iawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a hoffem ei weld yn cael ei ddiwygio.

**Prif ddeisebydd** Cardiff University Ornithological Society

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 23 Medi 2014

**Nifer y llofnodion**: Deiseb gysylltiedig 1,687 o llofnodion